Cyllid &
Thollau EM

Mai 2021

Annwyl [Gwsmer]

Rydym wedi bod yn ysgrifennu atoch yn rheolaidd i roi gwybod am y newidiadau o ran prynu nwyddau o, a gwerthu nwyddau i, wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd (yr UE). Ers i gyfnod pontio Brexit ddod i ben ar 31 Rhagfyr, y prif wahaniaeth yw bod datganiadau tollau'n orfodol erbyn hyn ar gyfer yr holl fewnforion ac allforion. Hefyd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu toll dramor a pharhau i dalu trethi eraill megis TAW mewnforio.

Gwnaeth ein llythyr diwethaf esbonio y gallech ohirio'ch datganiadau mewnforio mewn llawer o achosion. Yn y llythyr hwn, rydym am nodi'r broses ar gyfer gwneud y datganiadau gohiriedig hyn, a'r hyn y mae angen i chi ei wneud nawr. Ar ddiwedd y llythyr hwn, rydym yn esbonio ble y gallwch gael help a chyngor.

## Sut i ohirio'ch datganiadau mewnforio

Ar gyfer mewnforion o'r mwyafrif o nwyddau o'r UE a wneir yn ystod 2021, mae gennych ddau ddewis o ran gwneud datganiadau mewnforio. Gallwch naill ai wneud datganiad llawn wrth i'r nwyddau gyrraedd Prydain Fawr, neu ddewis gohirio'ch datganiadau. Os byddwch yn gohirio'ch datganiadau, bydd hyn yn golygu y byddwch hefyd yn gohirio talu unrhyw doll dramor a TAW mewnforio (oni bai eich bod wedi cofrestru ar gyfer TAW). Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ohirio'ch datganiadau yn www.gov.uk/hmrc/delay-import-declarations

Ni allwch ohirio datganiadau ar gyfer nwyddau o dan reolaeth, megis alcohol neu dybaco. Gallwch ddysgu p'un a yw'r nwyddau rydych yn eu mewnforio yn cael eu hystyried fel rhai 'o dan reolaeth' yn www.gov.uk/guidance/list-of-goods-imported-into-great-britain-from-the-eu-that-are-controlled

Cyn i'ch nwyddau gael eu mewnforio, gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno gyda'r person sy'n gyfrifol am symud eich nwyddau a fydd y nwyddau'n cael eu datgan gan ddefnyddio datganiadau gohiriedig neu drwy wneud datganiad llawn wrth i'r nwyddau gyrraedd.

Os byddwch yn penderfynu gohirio'ch datganiadau, mae'n bwysig eich bod yn:

- **cadw cofnod cywir o'r hyn rydych yn ei fewnforio bob tro y mae'ch nwyddau'n cyrraedd Prydain Fawr**
  - gofyniad cyfreithiol yw hwn – mae'r math o wybodaeth y bydd angen i chi ei chofnodi yn cynnwys dyddiad ac amser y mewnforio, disgrifiad ysgrifenedig o'r nwyddau, a'r cod nwyddau cysylltiedig
  - i weld rhestr lawn o'r hyn y mae angen i chi ei gofnodi, ewch i www.gov.uk/guidance/making-an-import-declaration-in-your-records-without-authorisation
- **anfon datganiad atodol i CThEM cyn pen 175 diwrnod i'r dyddiad y gwnaeth eich nwyddau gyrraedd Prydain Fawr**
  - er enghraifft, os gwnaethoch fewnforio nwyddau ar 1 Ionawr 2021, bydd angen i chi wneud eich datganiadau atodol erbyn 25 Mehefin 2021
  - er bod cyflwyno rheolaethau llawn ar gyfer mewnforio wedi'i ohirio tan 1 Ionawr 2022, nid yw hyn yn wir o ran y gofyniad i gyflwyno datganiadau atodol cyn pen 175 diwrnod i ddyddiad cyrraedd y nwyddau

Rydym yn gwybod bod ymgyfarwyddo â rheolau newydd yn heriol, ac rydym eisiau gwneud popeth a allwn i'ch helpu a'ch cefnogi i gael pethau'n gywir. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cymryd amser i ddarllen yr arweiniad ac i ddeall sut y mae hyn yn berthnasol i'ch busnes. Os byddwn yn canfod eich bod wedi colli'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch datganiad atodol, a hynny'n fwriadol, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb o hyd at £2,500, ac efallai y byddwch yn colli'r opsiwn o ohirio datganiadau yn y dyfodol.

## Paratoi i wneud datganiadau atodol

Os ydych eisoes wedi mewnforio nwyddau gan ddefnyddio datganiadau gohiriedig, ewch ati nawr i baratoi fel bod popeth yn ei le i chi wneud eich datganiad atodol mewn pryd. Mae angen i chi benderfynu a fyddwch yn gwneud eich datganiadau'ch hun, neu a fyddwch yn gofyn i gyfryngwr tollau ei wneud ar eich rhan.

Dim ond os oes gennych y pethau canlynol yn eu lle y dylech geisio cwblhau datganiadau eich hun:

1. Rhif EORI sy'n dechrau gyda 'GB' – os nad oes gennych un eisoes, gallwch wneud cais am un yn www.gov.uk/cael-rhif-eori (os ydych yn defnyddio cyfryngwr tollau, bydd angen eich rhif EORI eich hun arnoch o hyd).
2. Cyfrif Gohirio Tollau (DDA) er mwyn talu unrhyw doll dramor sydd arnoch. Gallai sefydlu hwn gymryd hyd at chwe wythnos.
3. Awdurdodiad i ddefnyddio gweithdrefnau datganiadau symlach – gall hyn gymryd hyd at 60 diwrnod.
4. Mynediad at un o systemau prosesu tollau CThEM – CHIEF neu CDS.
5. Meddalwedd arbennig ar gyfer datganiadau symlach sy'n gweithio gyda systemau prosesu tollau CThEM. Bydd angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut i'w defnyddio ac efallai y bydd angen i chi gael hyfforddiant.

Ar gyfer pob un o'r mewnforion a wnewch o'r UE, os ydych yn defnyddio'r broses datganiadau gohiriedig, mae gennych 175 diwrnod calendr o'r dyddiad mewnforio i wneud y datganiad atodol.

Mae angen i chi wneud cais nawr am Gyfrif Gohirio Tollau (DDA) ac am awdurdodiad i ddefnyddio gweithdrefnau datganiadau symlach, os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/prepare-to-make-supplementary-declarations

## Penodi cyfryngwr tollau

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i ofyn i rywun ddelio â gwaith papur tollau ar eich rhan yn www.gov.uk/guidance/appoint-someone-to-deal-with-customs-on-your-behalf ac mae rhestr o gyfryngwyr tollau a all eich helpu yn www.gov.uk/hmrc/agents-fast-parcel-operators

Rydym yn diweddaru'r rhestr hon yn rheolaidd er mwyn dangos pa rai o'r busnesau hyn sy'n gallu cymryd cleientiaid newydd ymlaen, ac er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau y maent yn eu cynnig.
Gallwch hefyd ddefnyddio ein rhestr wirio o bethau i'w hystyried pan fyddwch yn penodi cyfryngwr tollau, i'ch helpu i ddod o hyd i un sy'n bodloni gofynion eich busnes. Ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-brexit-transition-communications-resources.cy

## Gwirio a allwch hawlio tariffau sero ar gyfer eich nwyddau sydd wedi'u mewnforio

Os byddwch yn mewnforio nwyddau o'r UE sy'n tarddu o'r UE, byddwch yn gallu hawlio tariffau sero os bydd y nwyddau'n bodloni'r rheolau o ran tarddiad. Mae hyn yn golygu na fydd angen i chi dalu toll dramor, ond bydd angen i chi dalu TAW o hyd, pan fo'n berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth am dalu TAW mewnforio ar gael yn www.gov.uk/guidance/vat-imports-acquisitions-and-purchases-from-abroad

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bod eich nwyddau'n bodloni'r rheolau o ran tarddiad, a bydd angen i chi gynnwys yr wybodaeth hon yn eich datganiad atodol. Os bydd rhywun arall yn gwneud eich datganiadau ar eich rhan, bydd angen i chi roi'r wybodaeth hon iddo. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn www.gov.uk/hmrc/preferential-duty-rates

## Y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael ar gyfer mewnforwyr ac allforwyr

Gall mentrau bach a chanolig (MBaCh) gael hyd at £2,000 drwy'r Gronfa Gymorth Brexit newydd i Fentrau Bach a Chanolig, a hynny i dalu am gymorth ymarferol, gan gynnwys hyfforddiant neu gyngor proffesiynol i ddod i arfer â'r holl dollau, rheolau o ran tarddiad a rheolau TAW newydd sydd ar waith wrth fasnachu â'r UE. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn
www.gov.uk/guidance/grants-to-help-small-and-medium-sized-businesses-new-to-importing-or-exporting

Mae gennym ystod o arweiniad a thiwtorialau ar-lein i'ch helpu. Dyma rywfaint o'r cymorth sydd ar gael i chi:

### Canllawiau cam wrth gam ar gyfer mewnforio ac allforio

Defnyddiwch ein canllawiau defnyddiol i wirio'r camau y mae angen i chi eu dilyn os ydych yn mewnforio nwyddau o'r UE neu'n allforio nwyddau i'r UE. Gallwch ddod o hyd i'r rhain yn www.gov.uk/import-goods-into-uk ac yn www.gov.uk/export-goods

### Gweminarau byw

Gallwch fynychu ein gweminarau i'ch helpu i addasu i'r rheolau newydd, gan gynnwys:

- Datganiadau Mewnforio ar gyfer y Tollau: Trosolwg
- Allforio: yr hyn y mae angen i chi ei wybod er mwyn sicrhau bod eich nwyddau'n parhau i symud

Er mwyn cofrestru i fynychu un o'n gweminarau byw, neu er mwyn cael mynediad at fersiynau sydd wedi'u recordio, ewch i www.gov.uk/guidance/help-and-support-for-uk-transition

### Fforymau

Defnyddiwch ein fforymau ar-lein i ofyn cwestiynau penodol ynghylch prosesau CThEM ar gyfer mewnforio neu allforio, ac i gael atebion i'r cwestiynau hyn. Gallwch gael mynediad at ein fforymau i gwsmeriaid yn community.hmrc.gov.uk/forums/customerforums/tp

P'un a ydych yn dal i ohirio datganiadau mewnforio neu p'un a ydych yn un o'r llawer o fasnachwyr sydd eisoes yn gwneud datganiadau tollau llawn ac yn talu tollau a threthi eraill wrth i chi fewnforio neu allforio, ewch ati i ddefnyddio'r holl gymorth sydd ar gael.

Yn gywir



Katherine Green a Sophie Dean

Cyfarwyddwyr Cyffredinol, Ffiniau a Masnachu, CThEM